**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

18 Gorffennaf 2016

Annwyl Bethan

**Bil Cymru**

Ar hyn o bryd, rydym yn craffu ar Fil Cymru wrth iddo barhau ar ei daith drwy Senedd y DU. Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 11 Gorffennaf, ac rydym yn rhagweld y bydd y cyfnod adrodd a'r trydydd darlleniad yn digwydd ym mis Medi, cyn i'r Bil fynd yn ei flaen i Dŷ'r Arglwyddi.

Rydym eisoes wedi cael tystiolaeth gan ystod o academyddion ac arbenigwyr cyfreithiol, fel y Prif Weinidog a'r Llywydd. Rydym hefyd wedi gwahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod y gwahoddiad.

Gwnaethom gynnal digwyddiad ardderchog yng nghwmni rhanddeiliaid i drafod y Bil yn Siambr Hywel yn gynharach y mis hwn, gan ddwyn ynghyd rhanddeiliaid o'r proffesiwn cyfreithiol, y byd academaidd a'r meysydd polisi datganoledig. Er mwyn adeiladu ar y digwyddiad hwn, rydym wedi lansio fforwm ymgysylltu ar-lein i barhau â'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Roedd ein rhagflaenydd ni fel Pwyllgor yn gallu tynnu ar y gwaith rhagorol a wnaethpwyd gan eich rhagflaenydd chi fel Pwyllgor wrth drafod y Bil drafft. Roedd gwaith y pwyllgorau yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig wrth ystyried effaith cymalau cadw penodol ar bolisi o fewn eu cylchoedd gwaith ac ar y gallu i lunio cyfreithiau dealladwy a chydgysylltiedig. Amgaeaf gopi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth i chi.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem, felly, yn croesawu clywed unrhyw sylwadau sydd gennych ar Fil Cymru, yn arbennig o ran effaith y cymalau cadw ar eich cylchoedd gwaith a'r cwestiwn a yw gwaith craffu cyn deddfu wedi newid y sefyllfa a amlinellwyd mewn llythyrau gan eich rhagflaenydd fel Pwyllgor.

Mae ein Pwyllgor yn gobeithio dylanwadu ar waith Tŷ'r Arglwyddi wrth graffu ar y Bil, yn ogystal â chyfoethogi dadl y Cynulliad pan fydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno. Er nad oes gennym amserlen benodol ar gyfer ein trafodaethau, os ydych yn dymuno ymateb, mi fyddai o gymorth i ni pe bai'r wybodaeth hon yn dod i law yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

18 Tachwedd 2015

Annwyl David

**Bil Cymru drafft: Goblygiadau'r model cadw pwerau'n ôl arfaethedig ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad**

Yn ei gyfarfodydd ar 4 a 12 Tachwedd, cyfarfu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') i drafod Bil Cymru drafft ('y Bil drafft'), yn enwedig goblygiadau'r Bil drafft o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn meysydd sy'n berthnasol i'n cylch gwaith ni. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i amlinellu ein barn ar y materion hyn.

Er bod y model 'rhoi pwerau' cyfredol wedi galluogi'r Cynulliad i basio cyfreithiau mewn amrywiaeth o feysydd polisi allweddol, ni fu'r broses hon yn hawdd bob amser. Mae'r ffaith bod tair o ddeddfau'r Cynulliad wedi'u cyfeirio at y Goruchaf Lys mewn tair blynedd yn adlewyrchu diffyg eglurder a chymhlethdod cynhenid y model rhoi pwerau yn glir.

I'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r model cadw pwerau'n ôl sy'n darparu setliad datganoli mwy cydlynol ac ymarferol. Roeddem, fodd bynnag, wedi disgwyl i fodel o'r fath ddatblygu'r setliad presennol; model sydd, fel gofyniad lleiaf posibl, yn adlewyrchu ewyllys yr etholaeth yng Nghymru yn y refferendwm 2011 i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar bob mater yn yr 20 pwnc y mae ganddo bwerau drostynt, heb fod angen cytundeb Llywodraeth y DU. Rydym yn hynod o siomedig

nad yw'r model arfaethedig yn cyflawni'r disgwyliadau hyn. Yn wir, mae'n ymddangos mai'r cyfan a wna'r Bil drafft yw cymhwyso'r dull rhoi pwerau i fodel cadw pwerau'n ôl.

Hefyd, er y deallwn y rhesymeg sy'n gefndir i barhad rhai materion a gedwir yn ôl, fel cyfansoddiad y Deyrnas Unedig, materion tramor, ac amddiffyn, nid yw'n glir pam na ddylai materion eraill, fel plismona'n benodol, fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, yn ôl argymhelliad Comisiwn Silk. Mae'n fwy o syndod byth bod materion polisi cymdeithasol cyffredinol fel adloniant a lluniaeth hwyr y nos, gwerthu a chyflenwi alcohol, a chyllyll i'w cadw'n ôl.

Rydym o'r farn, mewn cysylltiad â'r hyn a nodwyd uchod, ei bod yn anodd anwybyddu'r cwestiwn ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol. Nid yw'r cyd-destun hanesyddol o ran awdurdodaeth "Cymru a Lloegr", ynddo'i hun nac ohono'i hun, yn gyfiawnhad digonol dros barhau ag awdurdodaeth sengl. Rydym yn pryderu, heb awdurdodaeth gyfreithiol benodol ar gyfer Cymru, y byddai model cadw pwerau'n ôl yn hynod o anodd ei weithredu'n ymarferol.

Nodwn fwriad Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Bil drafft roi grym i ymrwymiadau Dydd Gŵyl Dewi "i gyflwyno setliad datganoli cryfach, cliriach a thecach i Gymru a fydd yn sefyll prawf amser." Er bod y Bil drafft hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU gyflawni'r ymrwymiadau hyn, rydym o'r farn ei fod yn methu â gwneud hyn, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

Wrth adrodd ynghylch Biliau'r Cynulliad o fewn ein cylch gwaith, rydym wedi dweud bod angen i ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio gennym yn y Cynulliad fod yn glir ac yn hygyrch. Dylai'r meini prawf hyn fod yn berthnasol i bob darn o ddeddfwriaeth, waeth beth fo'i tharddiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos y Bil drafft hwn, sy'n ceisio mynd i'r afael ag anawsterau sy'n deillio o'r model rhoi pwerau, a gwneud newidiadau sy'n para i setliad datganoli Cymru. Rydym o'r farn nad yw'r Bil drafft yn bodloni'r meini prawf sylfaenol hyn, ac y byddai'r model arfaethedig, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn fwy cymhleth na'r trefniadau presennol, sy'n golygu y byddai'r Cynulliad yn fwy agored i gael ei herio wrth arfer ei bwerau newydd.

Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch cynigion y Bil drafft, a sut fydd y setliad datganoli yn cael ei

ddehongli, ac rydym yn ymwybodol o'r gohebu sy'n digwydd rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Llywydd ar y materion hyn.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r ansicrwydd yn cynyddu ynghylch beth fydd y setliad datganoli yn y pen draw. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith bosibl ar allu pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i ddatblygu maniffestos cyn etholiad y Cynulliad yn 2016. Gall fod yn anodd i'r pleidiau ymrwymo i bolisïau pan fydd deddfwriaeth yn ofynnol i'w cyflawni, oherwydd lleihad posibl yng nghymhwysedd y Cynulliad.

**Cymhwysedd deddfwriaethol a'r profion cymhwysedd newydd**

Nodwn fod y Bil drafft yn cynnig nifer o brofion cymhwysedd sydd i'w defnyddio gyda Biliau'r Cynulliad. Er bod rhai o'r profion hyn yr un fath â'r profion cyfredol (er enghraifft, cysondeb â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac â chyfraith yr UE), mae eraill yn rhai newydd, ac nid yw'n ymddangos eu bod yn deillio'n anochel o fodel cadw pwerau'n ôl. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar prawf "angenrheidrwydd" newydd y mae'n ymddangos eu bod yn cyfyngu ar y Cynulliad yn fwy nag a wneir ar hyn o bryd; mae hyn yn ein pryderu'n fawr.

Wrth edrych yn ôl ar ddeddfwriaeth y Cynulliad[1] a basiwyd, neu sydd ar ei hynt drwy'r Cynulliad, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, pe baem yn defnyddio'r profion cymhwysedd ym Mil Cymru drafft gyda'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, mae'n ymddangos bod nifer o enghreifftiau pan fyddai naill ai amheuon wedi bod ynghylch cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu, neu pan fyddai wedi bod yn amlwg nad oedd y Cynulliad yn gallu deddfu. Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn yn y naratif isod ac yn Atodiad A.

---

[1] Yn ystod y pedwerydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor wedi ystyried naw o Filiau ac wedi cyflwyno adroddiadau arnynt: Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012; Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012
Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013; Deddf Tai (Cymru) 2014; Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015; Bil Llywodraeth Leol (Cymru); Bil Rhentu Cartrefi (Cymru); Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

**Cymalau Cadw**

Rydym wedi dadansoddi'r cymalau cadw a nodir yn y Bil drafft sy'n arbennig o berthnasol i'r meysydd yn ein cylch gwaith. Mae ein canfyddiadau manwl wedi'u nodi yn Atodiad A, gan gynnwys asesiad byr o a yw'n debygol y bydd cymhwysedd yn y meysydd hyn yn cael ei leihau, ei gynyddu, neu a fydd yn ddigyfnewid.

Dengys ein dadansoddiad fod cymhwysedd y Cynulliad yn debygol o gael ei ymestyn mewn meysydd penodol, er enghraifft mewn perthynas ag agweddau penodol ar etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y cymalau cadw arfaethedig yn golygu lleihau cymhwysedd y Cynulliad yn y meysydd o fewn portffolio'r Pwyllgor: rydym yn gwrthwynebu hyn yn gryf. Mae nifer o feysydd hefyd lle y mae'n aneglur beth fyddai effaith y cymalau cadw ar gymhwysedd. Nid ydym yn ystyried bod hon yn sefyllfa foddhaol.

**Cyfyngiadau ar addasu cyfraith breifat**

Yn ogystal ag edrych yn fanwl ar y cymalau cadw a gynigir yn y Bil, rydym hefyd wedi ystyried rhai o'r profion cymhwysedd eraill, yn benodol y cyfyngiad ar addasu'r gyfraith breifat (Prawf 5, Atodiad B).

Deallwn y byddai'r cyfyngiad arfaethedig hwn yn golygu lleihad sylweddol o ran cymhwysedd y Cynulliad, gan nad yw'r prawf yn bodoli o dan y setliad presennol a byddai'n arwain at broblemau o ran eglurder ac ymarferoldeb y setliad. Mae geiriad y cyfyngiad yn golygu ei bod yn debygol y byddai ansicrwydd ynghylch ehangder cymhwysedd y Cynulliad, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o gyfeirio Biliau i'r Goruchaf Lys, yn ein barn ni. Er enghraifft, mae'r Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn awgrymu telerau newydd mewn cytundebau cartrefi symudol. Mae hyn yn gofyn am addasiad o'r gyfraith contract. Mae'n aneglur a fyddai hyn o fewn cymhwysedd o dan y setliad newydd, a byddai'n dibynnu ar ddefnyddio'r profion angenrheidrwydd. Gellid gwneud pwynt tebyg yn achos y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn ei gyfanrwydd bron.

**Cyfyngiad ar addasu cyfraith trosedd a chosbau sifil**

Gwnaethom hefyd ystyried y prawf cymhwysedd sy'n ymwneud ag addasu cyfraith droseddol a chosbau sifil (Prawf 6, Atodiad B). O dan y model rhoi pwerau presennol, yn ddarostyngedig i amodau penodol, gall y Cynulliad greu troseddau a newid yr amddiffyniadau sydd ar gael, neu'r cosbau sy'n gymwys. Mae ein dadansoddiad o'r cyfyngiad arfaethedig ar addasu cyfraith trosedd a chosbau sifil

yn nodi y byddai dim ond yn caniatáu i'r Cynulliad wneud y newidiadau lleiaf posibl yn y meysydd hyn i roi grym i'w fwriad deddfwriaethol, ac y gallai'r llysoedd adolygu dewis y Cynulliad yn hyn o beth.

Nodwn fod nifer sylweddol o Filiau a ystyriwyd gennym yn ystod y Cynulliad hwn wedi dibynnu ar greu troseddau a chyflwyno cosbau fel modd o sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau a osodir, neu â gwaharddiadau a gyflwynir. Er enghraifft, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys cyfres o ddarpariaethau gorfodi, gan gynnwys y drosedd o benodi asiant didrwydded, a'r defnydd o hysbysiadau cosb penodedig.

Hefyd, mae darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) sy'n ceisio cyfyngu ar yr 'amddiffyniad o anwybodaeth' presennol ar gyfer cyhuddiadau o ddifrod i henebion hanesyddol.

O gofio geiriad y cymal cadw arfaethedig, mae'n rhesymol awgrymu y byddai wedi bod lle i herio rhai o'r newidiadau uchod i gyfraith trosedd a chosbau sifil. Er bod hyn, ynddo'i hun, yn annymunol, mae'n ein pryderu ni'n fwy y gallai'r cyfyngiad arfaethedig o bosibl arwain at basio cyfreithiau 'diddannedd' ac aneffeithiol, i raddau helaeth, yng Nghymru.

**Awdurdodau a gedwir a swyddogaethau Gweinidog y Goron**

Ar ôl ystyried y prawf cymhwysedd arfaethedig mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir a swyddogaethau Gweinidog y Goron, rydym yn pryderu ei fod yn llawer ehangach na'r prawf presennol, ac mai effaith debygol hyn fydd cynyddu'n fawr nifer yr achosion y byddai angen caniatâd Llywodraeth y DU ar y Cynulliad i ddeddfu.

Er enghraifft, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol eu bodloni o ran darpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, os deuai'r setliad arfaethedig i rym, ni allai'r Cynulliad ddiwygio'r Mesur er mwyn effeithio ar awdurdodau a gedwir mewn ffyrdd newydd nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y Mesur presennol, oni bai bod Gweinidog y Goron yn rhoi caniatâd. Ni fyddai'r Cynulliad ychwaith yn gallu pasio Deddf newydd i osod dyletswyddau newydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar awdurdodau a gedwir heb y caniatâd hwnnw.

Mae nifer o enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor pan fyddai caniatâd wedi bod yn ofynnol pe bai'r prawf arfaethedig yn cael ei ddefnyddio:

- Deddf Tai (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol (a chyrff eraill) yng Nghymru a Lloegr o ran digartrefedd;
- Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sy'n creu gwahanol hawliau i apelio i dribiwnlys;
- Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), sy'n creu nifer o hawliau i gyfeirio materion i'r llys sirol, yr uchel lys neu'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl;
- Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), sy'n creu hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi i lys ynadon.

Mae'n deg dweud bod proses y gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a oedd ar waith cyn symud at Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn arbennig o feichus, a'i bod yn arwain at oedi wrth gyflwyno cynigion deddfwriaethol a gefnogwyd, mewn egwyddor, gan bob plaid wleidyddol yng Nghymru. Er nad ydym am roi sylwadau ar yr egwyddor o ganiatâd, rydym yn ystyried y byddai'r prawf cymhwysedd arfaethedig mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir a swyddogaethau Gweinidog y Goron yn gam yn ôl. Rydym yn pryderu rhywfaint am ddiffyg effeithlonrwydd posibl y broses o ganiatâd, yn enwedig o ystyried ein profiad o ran Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'r angen am fwy o gyfathrebu rhynglywodraethol wrth drafod caniatâd yn debygol o arwain at fwy o oedi o fewn y broses. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y cynnydd posibl yn nifer y Biliau y bydd angen cael caniatâd iddynt o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r profion cymhwysedd. Nid oes dim sicrwydd y caiff y caniatâd ei roi ym mhob achos wrth gwrs.

I helpu i lywio ein trafodaeth ar y Bil drafft, ysgrifennwyd at Gomisiynydd y Gymraeg ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ofyn eu barn ar effaith y Bil ar y meysydd y mae ganddynt hwy gyfrifoldebau statudol drostynt. Yn ei ymateb, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio at 'amwysedd' ac ansicrwydd' ynghylch a fyddai swydd a swyddogaethau'r Ombwdsmon yn aros o fewn cymhwysedd y Cynulliad fel rhan o'r setliad newydd. Mae'r pryderon a fynegwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos ymhellach nad yw'r model arfaethedig yn dangos eglurder digonol, hyd yn

oed o ran materion fel hyn, a ddylai fod yn faterion syml. Mae copi o lythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn atodedig fel Atodiad C.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at eich gwaith a hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi glywed ein safbwyntiau. Rydym yn edrych ymlaen at yr amser y caiff eich adroddiad ei gyhoeddi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Brif Weinidog Cymru, y Llywydd ac at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

**Atodiad A: Cymalau cadw yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru**
*(Adran B1, materion a gedwir yn ôl 20-26)*

1. Mae'r setliad presennol yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad o ran 'trefniadau etholiadol' ar gyfer llywodraeth leol. Nid yw'r geiriad wedi cael ei brofi yn y llysoedd, ond cymerwyd ei fod yn cynnwys y system bleidleisio (e.e. trefn y cyntaf i'r felin, pleidlais sengl drosglwyddadwy, ac ati) yn ogystal â chynnal etholiadau, materion fel ffiniau, a nifer y cynghorwyr a gaiff eu hethol ar gyfer pob ward (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr). Mae yna eithriad penodol sy'n eithrio cymhwysedd ar gyfer yr 'etholfraint' – h.y. pwy sy'n cael pleidleisio.

2. O dan y Bil drafft, byddai bron pob agwedd ar etholiadau llywodraeth leol o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Yn fwyaf nodedig, byddai'r etholfraint ar gyfer etholiadau lleol yn amlwg yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, gan nad yw'n cael ei gadw'n ôl. Mae hynny'n **cynyddu** cymhwysedd y Cynulliad.

3. Mae yna faterion a gedwir yn ôl o'r cynnydd hwn mewn cymhwysedd, fodd bynnag. Ni fyddai gan y Cynulliad gymhwysedd i wneud y canlynol:

- Newid y sefyllfa o ran y cyfuniad o etholiadau datganoledig ac etholiadau heb eu datganoli, gan gynnwys pwerau arfaethedig newydd Gweinidogion Cymru yn hyn o beth (mater a gedwir yn ôl 20 a 21); (mae "etholiadau datganoledig" yma'n golygu etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, tra bod etholiadau "heb eu datganoli" yn golygu etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Ewropeaidd, etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac unrhyw etholiadau neu refferenda eraill a fyddai y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, fel, yn amlwg, etholiadau Senedd yr Alban);
- Newid y terfynau ar wariant ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer etholiadau sydd heb eu datganoli (mater a gedwir yn ôl 25);
- Newid y terfynau ar wariant ymgyrchoedd etholiadol lle mae etholiadau lleol yn cael eu cyfuno ag etholiadau sydd heb eu datganoli (cymal cadw 24);
- Newid y cofrestriad a'r rheolau ariannol sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol (mater a gedwir yn ôl 26).

4. Yn ogystal â'r cynnydd yng nghymhwysedd y Cynulliad, byddai Gweinidogion Cymru yn cael rhywfaint o **gynnydd o ran pwerau gweithredol** mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Byddent yn gallu darparu ar gyfer cyfuniadau o ran rhai etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, er na fyddai rheolau ar gyfuno etholiadau **cyffredin** y Cynulliad ac etholiadau **cyffredin** llywodraeth leol yn dod o fewn y pŵer hwnnw. Yn yr un modd, ni fyddai gan y Cynulliad gymhwysedd i newid amseriad etholiadau llywodraeth leol cyffredin os byddent yn cyd-daro ag etholiad cyffredinol y Cynulliad.

5. Byddai gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn caniatáu ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn ddigidol mewn etholiadau lleol.

**Mewnfudo**

*Adran B2, mater a gedwir yn ôl 28: Mewnfudo, gan gynnwys lloches, a statws a gallu pobl nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig yn y Deyrnas Unedig*

6. Mae'r dyletswyddau digartrefedd a osodir ar awdurdodau lleol o dan **Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014** ('Deddf 2014') yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer pobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo.

7. Mae'n **aneglur** a allai'r mater a gedwir yn ôl 28 arfaethedig olygu bod darpariaethau fel hyn, i wneud darpariaeth benodol ar gyfer ceiswyr lloches a phobl eraill sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo, gael ei wneud o dan y setliad arfaethedig newydd. Os na allai, mae'r goblygiadau yn ansicr. Gallai olygu y byddai'n rhaid i Ddeddf y Cynulliad ar dai neu digartrefedd yn y dyfodol drin yr unigolion hynny yn yr un ffordd â dinasyddion Prydeinig. Fel arall, gallai olygu na fyddai Deddf y Cynulliad, yn syml, yn gyfraith o ran y personau hynny - er bod hyn yn ymddangos yn ddehongliad eithafol.

**Troseddu, trefn gyhoeddus a phlismona**

*Adran B5: mater a gedwir yn ôl 38: Atal, canfod ac ymchwilio i droseddau*

8. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau rheoleiddiol (troseddau) mewn sawl maes, fel peidio â thalu'r dreth gyngor a materion amgylcheddol. Gallai'r mater a gedwir yn ôl hwn **leihau** cymhwysedd y Cynulliad i roi dyletswyddau neu bwerau ymchwilio newydd i awdurdodau lleol.

9. Byddai goblygiadau sylweddol i'r mater a gedwir yn ôl hwn ar gyfer **Deddf Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.** Nod y rhan fwyaf o'r 26 o adrannau'r Ddeddf honno, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yw lleihau troseddau. Mae'r mater a gedwir yn ôl penodol 'atal ... troseddau' yn golygu ei bod yn debygol y byddai'r Ddeddf gyfan **wedi bod y tu allan i gymhwysedd** pe bai wedi cael ei chyflwyno o dan y setliad arfaethedig newydd.

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol**
*Adran B6, cymal cadw 42: Testun Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014*

10. Ar hyn o bryd, mae eithriad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal y Cynulliad rhag deddfu ynghylch *gorchmynion i ddiogelu pobl rhag ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu ofid.*

11. Byddai Cymal Cadw 42 yn y Bil drafft yn cysylltu testun ymddygiad gwrthgymdeithasol â diffiniad a nodir yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Byddai'n atal y Cynulliad rhag pasio Deddf a oedd yn ymwneud â'r canlynol (h.y. a oedd â mwy na chysylltiad rhydd neu denau gyda'r canlynol):

> *'(a) conduct that has caused, or is likely to cause, harassment, alarm or distress to any person,*
> *(b) conduct capable of causing nuisance or annoyance to a person in relation to that person's occupation or residential premises, or*
> *(c) conduct capable of causing housing-related nuisance or annoyance to any person.'*

12. Mae hyn yn llawer ehangach na'r eithriad presennol, sydd ond yn rhwystro'r Cynulliad rhag deddfu ar 'orchmynion' sy'n bodoli eisoes.

13. Byddai'r setliad arfaethedig newydd yn golygu na allai'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o ran y cyd-destun tai. Felly, byddai **adran 55 o'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)** (sy'n gosod cyfrifoldebau ar ddeiliaid contractau i beidio â chymryd rhan yn yr ymddygiad hwn) wedi bod y **tu allan** i gymhwysedd y Cynulliad.

14. Mae hefyd yn debygol y byddai **adran 145 o'r Bil hwnnw** (sy'n caniatáu i ddarparwyr tai â chymorth eithrio deiliaid o'u cartrefi am hyd at 48 awr mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol) wedi bod y **tu allan** i gymhwysedd y Cynulliad.

15. Mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei gysylltu'n agos ag atal troseddu. Gallai'r **Ddeddf Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** efallai, felly, fod wedi bod y **tu allan** i gymhwysedd y Cynulliad ar sail y mater a gedwir yn ôl hwn, yn ogystal ag ar sail y mater a gedwir yn ôl sy'n ymwneud ag atal troseddau, pe bai'r setliad arfaethedig newydd mewn grym.

**Eitemau peryglus**

*(Adran B11, materion a gedwir yn ôl 48-50: Testun Deddf Arfau Saethu 1968-1997; testun Deddf Gwenwynau 1972; cyllyll)*

16. Mae'r materion a gedwir yn ôl hyn yn cynnwys cyllyll, llafnau, bwyeill, cleddyfau, gwenwynau a drylliau. Nid oes eithriad cyfredol yn Neddf Llywodraeth Cymru ar gyfer y materion a gwmpesir gan y materion a gedwir yn ôl arfaethedig. Gall y materion hyn ymddangos yn bell o gymhwysedd y Cynulliad, ond gallai'r Cynulliad mewn gwirionedd ddeddfu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r eitemau peryglus hyn, ar yr amod bod diben Deddf y Cynulliad yn ymwneud ag un o'r pynciau a roddwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru, fel atal anafiadau, diogelu plant ac oedolion ifanc, neu addysg.[2] Er enghraifft, gallai'r Cynulliad ddeddfu, mewn egwyddor, o ran eitemau peryglus at ddibenion amddiffyn plant a phobl ifanc ar strydoedd ein cymunedau yng Nghymru, neu mewn ysgolion a cholegau. O ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos y *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)*, gallai'r Cynulliad, felly, ddeddfu ar y materion hynny, ar yr amod bod diben y ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n wirioneddol at un o'r pynciau cymhwysedd.

17. Byddai'r mater a gedwir yn ôl arfaethedig, felly, yn **lleihau** cymhwysedd y Cynulliad.

---

[2] Cafodd hyn ei sefydlu gan ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos y *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)*. Fel cyflogaeth, a oedd yn broblem yn yr achos hwnnw, mae eitemau peryglus fel cyllyll yn "bynciau tawel", sef pynciau nad ydynt yn bynciau nac yn eithriadau yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Camddefnyddio cyffuriau a sylweddau seicoweithredol neu ddelio ynddynt**
*(Adran B12, mater a gedwir yn ôl 51)*

18. Ymddengys bod y cymal cadw hwn yn ehangach na'r eithriad presennol yn Neddf Llywodraeth Cymru, sydd ar gyfer "Camddefnyddio a delio mewn cyffuriau" yn unig. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'r sylweddau hyn, yn ymarferol, yn dod o fewn yr eithriad presennol. Ar ben hynny, byddai cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu yn eu cylch ar hyn o bryd yn cael ei rwystro oherwydd bodolaeth swyddogaeth Gweinidogion y DU na allai, o dan y setliad presennol, gael ei dileu na'i haddasu heb ganiatâd Llywodraeth y DU. Felly, nid yw'r mater a gedwir yn ôl hwn yn newid cymhwysedd mewn gwirionedd.

**Adloniant a lluniaeth hwyr y nos, gan gynnwys dosbarthiad ffilmiau a recordiadau fideo (gan gynnwys gemau fideo), a gwerthu a chyflenwi alcohol**
*(Adran B14, mater a gedwir yn ôl 53 a 54 ac Adran B15, mater a gedwir yn ôl 55)*

19. Mae eithriad yn Neddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn atal y Cynulliad rhag deddfu ynghylch '*trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyr y nos'.*

20. Byddai'r mater a gedwir yn ôl arfaethedig yn gymwys i adloniant 'hwyr y nos' yn unig. Mae'n ymddangos y gallai'r Cynulliad ddeddfu ynghylch adloniant ar adegau eraill o'r dydd, ac felly byddai hyn yn **cynyddu** ychydig ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

21. Ar y llaw arall, mae Deddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn atal y Cynulliad rhag deddfu mewn perthynas â dosbarthiad ffilmiau a recordiadau fideo, ond nid gemau fideo. Byddai cymhwysedd y Cynulliad ychydig yn **llai** yn sgil y Bil drafft**,** oherwydd byddai gemau fideo yn fater a fyddai'n cael ei gadw.

**Elusennau a chodi arian**
*Adran B21, mater a gedwir yn ôl 61: Elusennau*

22. Mae llawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn elusennau. Ar hyn o bryd, caiff y Cynulliad osod dyletswyddau arnynt o dan y pennawd 'tai'. Er enghraifft, mae **adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014** yn ei gwneud yn ofynnol i

landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gydweithio ag awdurdodau lleol i gartrefu pobl ddigartref. **Nid yw'n eglur** a fyddai'r ddarpariaeth hon yn tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, o ran y graddau y mae'n effeithio ar elusennau, o dan y setliad arfaethedig newydd.

**Iechyd a diogelwch**

*Adran J6, mater a gedwir yn ôl 171: Diogelwch tân*

23. Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad gymhwysedd o ran y pynciau canlynol:

- Y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd eu hadeiladu neu sydd newydd eu trosi;
- Hyrwyddo diogelwch tân heblaw drwy wahardd neu reoleiddio.

24. Mater a gedwir yn ôl 171 yw "Diogelwch tân". Mae eithriadau penodol ar gyfer darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd eu hadeiladu neu sydd newydd eu trosi, ac ar gyfer hyrwyddo diogelwch tân heblaw drwy wahardd neu reoleiddio. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eithriad ar gyfer "gwasanaethau tân ac achub".

25. Nid yw'r mater a gedwir yn ôl, ar ei ben ei hun, yn lleihau cymhwysedd yn ôl pob tebyg; mae'n ddigonol nad yw "gwasanaethau tân ac achub" yn cael eu cadw. Fodd bynnag, mae'r Bil drafft yn cynnwys cyfyngiad ar y Cynulliad rhag deddfu mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus nad yw eu swyddogaethau yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn cymhwysedd. O gofio y byddai swyddogaethau o ran "diogelwch tân" yn cael eu cadw, mae effaith y mater a gedwir yn ôl a'r cyfyngiad gyda'i gilydd **yn achosi rhywfaint o ansicrwydd** am bŵer y Cynulliad i ddeddfu ar gyfansoddiad, swyddogaethau ac ati awdurdodau tân ac achub.

**Y cyfryngau, diwylliant a chwaraeon**

*Cymalau cadw o dan Bennawd K*

26. Mae cymhwysedd yn y maes hwn **yn ddigyfnewid** i raddau helaeth, ond mae'n werth nodi rhai pwyntiau. Yn y setliad presennol, mae 'Darlledu' yn eithriad. Mae'r setliad arfaethedig newydd yn cyfeirio at 'Ddarlledu ***a chyfryngau eraill*** '(mater a gedwir yn ôl 173) a'r ***'Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig*** '(mater a gedwir yn ôl

174). Mae cymal cadw y BBC yn debygol o fod er eglurder yn unig; o dan y setliad presennol, mae'r BBC wedi cael ei ystyried erioed fel mater nad yw wedi'i ddatganoli. Felly, yr unig newid a all fod o arwyddocâd yw 'cyfryngau eraill'. Nid yw'n glir beth yw ystyr hyn, er yr ymddengys ei fod yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol mae'n debyg. O ganlyniad, mae'n **aneglur** a yw hwn yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad.

27. Mae cymal cadw arall (177) sy'n ymwneud â thaliadau a wneir i Gyllid a Thollau EM mewn perthynas ag eiddo a dderbynnir yn lle treth. Mae hwn yn ehangach na'r eithriad o gymhwysedd presennol: ar hyn o bryd, caiff y Cynulliad ddeddfu o ran taliadau yn lle treth ar ffurf eiddo sydd '***o ddiddordeb cenedlaethol i Gymru*** '. Felly, byddai hyn yn golygu **lleihad** o ran cymhwysedd.

**Pridiannau tir lleol**

*(Adran M2, mater a gedwir yn ôl 198: Pridiannau tir lleol*

28. O dan y setliad presennol, mae pridiannau tir lleol o fewn cymhwysedd, ac eithrio ar gyfer ffioedd. Byddai'r setliad arfaethedig newydd yn **lleihau** cymhwysedd y Cynulliad drwy gymryd ei bŵer i ddeddfu ar bridiannau tir lleol **mewn unrhyw ffordd.**

**Cyfle cyfartal**

*(Adran N1, mater a gedwir yn ôl 206: Cyfle cyfartal, gan gynnwys pwnc Deddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010*

29. Mae'r setliad presennol yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yng Nghymru a fyddai'n cael eu hystyried yn "ddatganoledig" yn fras.

30. Ni fyddai hyn yn bosibl o dan y setliad arfaethedig newydd. Mae cyfleoedd cyfartal, gan gynnwys pwnc Deddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu cadw yn y Bil drafft. Byddai hyn yn **lleihau** cymhwysedd y Cynulliad.

31. Fodd bynnag, byddai'r canlynol o fewn cymhwysedd, yn rhinwedd eithriadau i'r cymalau cadw:

*i) Encouragement of equal opportunities;*

*(ii) Imposing duties on "Welsh public authorities" and "specified public authorities" (both these terms are defined in the Bill) to make arrangements to ensure that their functions are carried out with due regard for their legal obligations as to equal opportunity;*

*(iii) The subject-matter of Part 1 of the Equality Act 2010 (which requires public bodies to have regard to the desirability of reducing socio-economic inequalities in exercising their functions). Otherwise, affecting the Equality Act would be outside competence.*

32. Mae'r cymhwysedd hwn yn gyfyngedig o ran cwmpas. Mae'r cymhwysedd i "annog" (pwynt (i)) yn llai na'r pŵer i osod dyletswyddau. Yn wir mae "anogaeth" ynddo'i hun yn rhywbeth nad oes angen camau deddfwriaethol ar ei gyfer, ac felly mae cymhwysedd deddfwriaethol yn ddamcaniaethol i raddau. Mae'r cymhwysedd ym mhwynt (ii) ar gyfer gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus o ran sut y maent yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol bresennol yn unig. Mae pwynt (iii) yn fwy arwyddocaol, fodd bynnag.

33. Nid yw'r diffiniad o 'gyfle cyfartal' yn cynnwys iaith. Felly, ymddengys **nad oes dim effaith ar** gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, gall cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad, mewn gwirionedd, leihau cymhwysedd yn y maes hwn, fel yr amlinellwyd eisoes yn ein llythyr.

**Atodiad B: Profion cymhwysedd arfaethedig ym Mil Cymru drafft**

| | |
|---|---|
| Prawf 1 | Rhaid iddo beidio ag ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth Cymru a Lloegr; |
| Prawf 2 | Rhaid iddo beidio â bod yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru, na rhoi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny), oni bai bod yr addasiad yn atodol i ddarpariaeth cymhwysedd craidd AC nad yw ei effaith y tu hwnt i Gymru yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth cymhwysedd craidd. |
| Prawf 3 | Rhaid iddo beidio ag "ymwneud â" materion a gadwyd yn ôl a restrir yn Atodlen 7A drafft, a gaiff ei mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru, gan ddisodli'r Atodlen 7 bresennol (mae Atodlen 7A i'w gweld yn Atodlen 1 i'r Bil). |
| Prawf 4 | Rhaid iddo beidio ag addasu'r gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl (na rhoi'r pŵer i wneud hynny), oni bai bod yr addasiad yn atodol i ddarpariaeth cymhwysedd craidd, ac nad yw ei effaith ar faterion a gadwyd yn ôl yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth cymhwysedd craidd. |
| Prawf 5 | Rhaid iddo beidio ag addasu cyfraith breifat (na rhoi'r pŵer i wneud hynny) oni bai bod yr addasiad yn angenrheidiol at bwrpas datganoledig, neu yn atodol i ddarpariaeth cymhwysedd craidd ac nad yw ei effaith ar gymhwysiad cyffredinol y gyfraith breifat yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r pwrpas datganoledig hwnnw.<br><br>Caiff ystyr "y gyfraith breifat" ei ddiffinio fel y gyfraith contract, y gyfraith asiantaeth, y gyfraith mechnïaeth, y gyfraith camwedd, y gyfraith cyfoethogi ac adferiad anghyfiawn, y gyfraith eiddo, y gyfraith ymddiriedolaethau a chyfraith olyniaeth). Mae hyn yn eang dros ben. |
| Prawf 6 | Rhaid iddo beidio ag addasu'r gyfraith trosedd (neu gosbau sifil), |

| | |
|---|---|
| | na rhoi'r pŵer i wneud hynny, oni bai bod yr addasiad yn atodol i ddarpariaeth cymhwysedd craidd, ac nad yw ei effaith ar gymhwysiad cyffredinol y gyfraith trosedd / cosbau sifil yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r diben datganoledig hwnnw, ac nad yw'n drosedd yn ymwneud â thraffig ar y ffyrdd. |
| Prawf 7 | Rhaid iddo beidio ag addasu deddfiad a warchodir (a restrir yn Atodlen 7B drafft, gan gynnwys rhai darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru a rhai darnau o ddeddfwriaeth arall). |
| Prawf 8 | Rhaid iddo beidio ag effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, neu swyddogaethau rhai o adrannau'r llywodraeth neu "awdurdodau a gedwir" eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd heb ganiatâd 'y Gweinidog priodol'.<br><br>**Mae'r prawf hwn yn debyg i brawf presennol, ond mae wedi'i ehangu'n sylweddol, h.y mae wedi'i wneud yn fwy cyfyngedig o ran cymhwysedd, mewn chwe ffordd**:<br><br>(i) ni fydd y Cynulliad yn gallu dileu neu addasu unrhyw swyddogaethau Gweinidogol y DU, ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, oni bai bod Llywodraeth y DU yn rhoi caniatâd i wneud hynny; tra ar hyn o bryd mae'r gwaharddiad yn berthnasol i swyddogaethau a grëwyd cyn 5 Mai 2011 yn unig;<br>(ii) ni fydd y Cynulliad yn gallu dileu neu addasu swyddogaethau o'r fath pan fyddai gwneud hynny dim ond yn ddamweiniol neu'n ganlyniadol, oni bai bod Llywodraeth y DU yn rhoi caniatâd i wneud hynny; mae hwn yn waharddiad newydd ac mae'n gwrthdroi effaith y dyfarniad Goruchaf Lys yn achos y *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*;<br>(iii) mae'r un gwaharddiadau yn berthnasol i effeithio ar swyddogaethau "awdurdodau a gedwir" (awdurdodau cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion a gadwyd yn ôl, ac awdurdodau cyhoeddus sydd ag unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i Gymru, hyd yn oed os yw eu swyddogaethau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion datganoledig ) - mae hwn yn waharddiad newydd; |

| | |
|---|---|
| | (vi) ni fydd y Cynulliad yn gallu rhoi na gosod unrhyw swyddogaeth ar awdurdod a gedwir heb ganiatâd gan Lywodraeth y DU (ar hyn o bryd, mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i roi swyddogaethau newydd i Weinidogion y DU yn unig );<br>(v) ni fydd y Cynulliad yn gallu rhoi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sy'n arferadwy yn benodol mewn perthynas ag awdurdod a gedwir, heb ganiatâd Llywodraeth y Deyrnas Unedig; mae hwn yn waharddiad newydd;<br>(vi) ni fydd y Cynulliad yn gallu addasu cyfansoddiad awdurdod a gedwir heb ganiatâd Llywodraeth y DU; mae hwn yn waharddiad newydd. |
| Prawf 9 | Rhaid iddo beidio â bod yn anghydnaws â'r Confensiwn Hawliau Dynol; |
| Prawf 10 | Rhaid iddo beidio â bod yn anghydnaws â Chyfraith yr UE |

Atodiad C

Our ref: NB/SMH | Ask for: Nick Bennett

Your ref: | ☏ 01656 641150

Date: 6 November 2015

Mrs Christine Chapman
Chair of the Communities, Equality
and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CARDIFF
CF99 1NA

Dear Mrs Chapman

**Draft Wales Bill: Request for information**

Thank you for your letter dated 23 October 2015 seeking my views on the draft Wales Bill published a fortnight ago. It would not be appropriate for me as Ombudsman to comment on the impact of the Bill in relation to bodies within my jurisdiction; however, I do welcome the opportunity to comment on its possible impact in relation to the office of the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW).

First and foremost, there is ambiguity as to whether under the 'reserved model' arrangements set out in the draft Wales Bill, the office of PSOW and the functions of the office of the PSOW remains within the legislative competence of the National Assembly for Wales. Clearly this is a matter of concern and, of course, a live issue with the Assembly currently considering introducing a new PSOW Act.

As members of the Communities, Equality and Local Government Committee will be aware, currently, the Assembly has the competence to legislate for a new Public Services Ombudsman (Wales) Act, pursuant to Part 4 of the Government of Wales Act 2006 ('GOWA 2006'). The relevant provisions of GOWA 2006 are set out in section 108 and Schedule 7. Paragraph 14 of Part 1 of Schedule 7 sets out the subjects on which the Assembly may legislate under the heading of 'Public administration' and this includes 'Public Services Ombudsman for Wales'.

Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk

As members of the Committee will also be aware it is intended that Schedule 7 of the GOWA 2006 be repealed. Although there is no direct reference to the PSOW within the draft Wales Bill (apart from Schedule 7B, paragraph 7(7)(b)), it is possible that the PSOW remains within the Assembly's competence through the provision at Schedule 7A, paragraph 2(1)(b), whereby the "functions exercisable by any person acting on behalf of the Crown" is not reserved. It may be that it is this that is applicable given that the PSOW is a Crown appointment.

With the above uncertainties, however, I sincerely hope that the new draft Wales Bill will not delay or affect the Assembly's ability to introduce a new PSOW Act, should this remain its wish.

With regard to the additional areas being proposed for devolution contained in the draft Wales Bill, the key consideration from the PSOW's perspective is the potential increase in complaints to the office as a consequence. It is my view that the devolved areas being proposed (that is, elements of energy and transport, and Assembly and local government elections in Wales) will not generate a significant increase in complaints. Had the area of welfare, for example, been included in the draft Wales Bill, then that would have been a different matter. However, as things stand, I cannot see that there will be a major impact on the Ombudsman's office. I have previously given the Assembly the undertaking that, in seeking financial resources for the running of my office, I would not seek more than 0.03% of the Welsh Block. On the basis of the provisions within the draft Wales Bill, I believe that I would still be able to honour that undertaking.

I hope that this response is of at least some assistance to the Committee's considerations.

Yours sincerely



Nick Bennett
Ombudsman